GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

**Rhaglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (RAAF)**
Iechyd Cyhoeddus Cymru, Y Deml Heddwch a Iechyd
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NW

**Vaccine Preventable Disease Programme (VPDP)**
Public Health Wales, Cathays Park
Cardiff CF10 3NW

Ffôn/Tel: 029 2040 2474 · Ffacs/Fax: 029 2040 2506
Gwefan/Web: www.iechydcyhoedduscymru.org
www.publichealthwales.org

June 2015

Dear Headteacher,

### Extension of childhood influenza vaccination programme

I'm writing to update you regarding the plans for the childhood influenza (flu) vaccination programme this year. I feel it is important to share this information with you at the earliest opportunity to help you plan for the autumn school term.

The arrangements for the 2015-16 flu season were recently announced by the Chief Medical Officer for Wales, and this year flu vaccine will be offered to all children aged two to six years on 31st August 2015. For most children the vaccine offered will be a **nasal spray flu vaccine** as this vaccine is more effective in children of this age.

This autumn, all children who attend school in reception class, year 1 and year 2 will be offered a nasal spray flu vaccine in school. Two and three year olds will be offered their vaccine at their GP surgery. It is anticipated in future years that further age groups will be added as the programme is rolled out.

The decision to vaccinate school age children in school, rather than at their GP surgery, is likely to protect the health of a greater number of children. Evidence shows that vaccination rates are higher in school age children when offered in school compared to when given in GP surgeries. Offering the vaccine in school will also help to minimise the disruption for schools compared with children taking time off to have their vaccination with their GP in term-time.

Offering flu vaccine to all children in reception class, year 1 and year 2 is expected to reduce flu illness in these age groups, and is anticipated therefore to boost school attendance during the winter months. It will also lower the risk of flu illness spreading and being passed onto school staff. Protecting children will also help prevent flu being passed on to family members and others in the community who may be at increased risk of complications from flu, such as unvaccinated younger children, people in clinical risk groups, and older adults.

Children in school years 3, 4, 5 and 6 who have a health condition that puts them at risk from the complications of flu should continue to obtain their annual flu vaccine from their GP in the usual way until their age group is included in the school programme.

We would also like to take this opportunity to ask for your help in highlighting to new parents the importance of being up to date with all immunisations before their child starts school. Around 85% of four year old children are fully up to date, but that leaves 1 in 8 vulnerable to diseases such as whooping cough, measles and mumps.

Arrangements will be made locally regarding the flu vaccination session in your school. You may have been contacted already, but, if not it is likely that you will be contacted before the end of the school term.

Additional information is available on the childhood influenza immunisation programme webpage. Should you require any further information please contact your school nurse.

The success of the programme depends on the support of schools. I apologise in advance for any disruption that may occur and thank you for your support.

Yours faithfully





**Mrs Jane Dyson**
Immunisation Nurse Specialist

**Dr Richard Roberts**
Head of Programme

Vaccine Preventable Disease Programme (VPDP), Public Health Wales
Temple of Peace and Health, Cathays Park, Cardiff CF10 3NW
Tel / Ffon: **029 2040 2473** Fax / Ffacs: +44 (0)29 2040 2526
Jane.Dyson2@wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

**Rhaglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (RAAF)**
Iechyd Cyhoeddus Cymru, Y Deml Heddwch a Iechyd
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NW

**Vaccine Preventable Disease Programme (VPDP)**
Public Health Wales, Cathays Park
Cardiff CF10 3NW

Ffôn/Tel: 029 2040 2474 · Ffacs/Fax: 029 2040 2506
Gwefan/Web: www.iechydcyhoedduscymru.org
www.publichealthwales.org

Mehefin 2015

Annwyl Bennaeth,

## Ymestyn y rhaglen brechu plant rhag y ffliw

Ysgrifennaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cynlluniau ar gyfer rhaglen brechu plant rhag y ffliw eleni. Teimlaf ei fod yn bwysig rhannu'r wybodaeth hon gyda chi cyn gynted â phosibl er mwyn eich helpu i gynllunio ar gyfer tymor yr hydref yn yr ysgol.

Cafodd y trefniadau ar gyfer tymor y ffliw 2015-16 eu cyhoeddi'n ddiweddar gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, ac eleni, bydd brechlyn y ffliw yn cael ei gynnig i bob plentyn dwy i chwech oed ar 31 Awst 2015. Ar gyfer y rhan fwyaf o blant, bydd y brechlyn yn cael ei gynnig fel **chwistrell drwynol** gan fod y brechlyn hwn yn fwy effeithiol ymysg plant o'r oed yma.

Yr hydref hwn, bydd pob plentyn sydd yn y dosbarth derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2 yn cael cynnig brechlyn chwistrell drwynol y ffliw yn yr ysgol. Bydd plant dwy a thair oed yn cael cynnig y brechlyn yn eu meddygfa. Rhagwelir yn y dyfodol y bydd mwy o grwpiau oedran yn cael eu hychwanegu wrth i'r rhaglen gael ei chyflwyno.

Mae'r penderfyniad i frechu plant oed ysgol yn yr ysgol, yn hytrach na'u meddygfa, yn debygol o amddiffyn iechyd mwy o blant. Dengys tystiolaeth fod cyfraddau brechu yn uwch ymysg plant oed ysgol pan gaiff ei gynnig yn yr ysgol o'i gymharu â meddygfeydd. Bydd cynnig y brechlyn yn yr ysgol hefyd yn amharu llai ar ysgolion na phlant yn cael amser i ffwrdd i gael eu brechu gan eu meddyg teulu yn ystod y tymor.

Disgwylir y bydd cynnig brechlyn y ffliw i bob plentyn yn y dosbarth derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2 yn lleihau salwch y ffliw ymysg y grwpiau oedran hyn, a rhagwelir felly y bydd yn cynyddu presenoldeb yn yr ysgol yn ystod misoedd y gaeaf. Bydd hefyd yn lleihau'r perygl o ledaenu'r ffliw a'i drosglwyddo i staff yr ysgol. Bydd amddiffyn plant hefyd yn helpu i atal y ffliw rhag cael ei drosglwyddo i aelodau'r teulu ac eraill yn y gymuned a allai fod mewn mwy o berygl o gymhlethdodau oherwydd y ffliw, fel plant iau heb eu brechu, pobl mewn grwpiau risg clinigol, ac oedolion hŷn.

Dylai plant ym mlynyddoedd ysgol 3, 4, 5 a 6 sydd â chyflwr iechyd sy'n eu rhoi mewn perygl o gymhlethdodau yn sgil y ffliw barhau i gael eu brechu rhag y ffliw yn flynyddol yn y ffordd arferol nes bod eu grŵp oedran wedi ei gynnwys yn y rhaglen ysgol.

Hoffem hefyd achub ar y cyfle hwn i ofyn am eich cymorth yn amlygu i rieni newydd bwysigrwydd imiwneiddio plant yn llawn cyn eu bod yn dechrau'r ysgol. Mae tua 85% o blant pedair oed wedi cael eu brechu'n llawn, ond mae hynny'n gadael 1 ym mhob 8 yn agored i glefydau fel y pas, y frech goch a chlwy'r pennau.

Bydd trefniadau'n cael eu gwneud yn lleol ar gyfer y sesiwn brechu rhag y ffliw yn eich ysgol. Efallai y cysylltwyd â chi'n barod, ond, os na wnaed, mae'n debygol y cysylltir â chi cyn diwedd y tymor ysgol.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael ar dudalen rhaglen brechu plant rhag y ffliw ar y we. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'ch nyrs ysgol.

Mae llwyddiant y rhaglen yn dibynnu ar gefnogaeth ysgolion. Ymddiheuraf ymlaen llaw am unrhyw amhariad a diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

Yn gywir

**Mrs Jane Dyson**
Nyrs Arbenigol Imiwneiddio

**Dr Richard Roberts**
Pennaeth y Rhaglen

Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy (VPDP), Iechyd Cyhoeddus Cymru
Y Deml Heddwch ac Iechyd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NW
Tel / Ffon: **029 2040 2473** Fax / Ffacs: +44 (0)29 2040 2526

Jane.Dyson2@wales.nhs.uk